# Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

## PWRPAS

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r safonau y gallwch eu disgwyl gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth bersonol amdanoch chi ('data personol'), yn ei defnyddio neu'n ei chadw;
- Sut gallwch chi gael gafael ar gopi o'ch data personol;
- Sut gallwch chi gwyno os ydych chi'n meddwl ein bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.

Nid yw'r ffordd rydym yn delio â'ch gwybodaeth wedi newid; yr hyn sydd yma yw diweddariad i'r hysbysiad blaenorol er mwyn egluro'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn un rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Diffiniadau

Mae Rheolydd Data yn golygu'r un peth, fel y diffinnir yn Erthygl 4 o GDPR ac yn Neddf Diogelu Data 2018.

Mae data personol neu wybodaeth bersonol yn golygu'r un peth, fel y diffinnir yn Erthygl 4 y GDPR ac yn Neddf Diogelu Data 2018.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chadw yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Bydd angen i ni gasglu'ch gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni swyddogaethau fel hwyluso dedfrydau a roddir gan y llysoedd (yn y ddalfa ac yn y gymuned), ac adsefydlu pobl yn ein gofal drwy addysg a chyflogaeth.

## Y mathau o ddata personol rydym yn ei brosesu

Dim ond data personol sy'n berthnasol i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi y byddwn ni'n ei brosesu. Mae hyn yn cynnwys: Eich enw a'ch cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, rhyw, tarddiad ethnig, manylion unrhyw droseddau, gan gynnwys euogfarnau blaenorol, gwybodaeth am orchmynion llys ac amodau trwydded.

## Pwrpas y prosesu a'r sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu

Bydd eich gwybodaeth bersonol rydym ni'n ei chasglu yn cael ei defnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau amdanoch chi a'ch cynnydd.

Mae gennym hefyd ddyletswydd gyfreithiol i atal a datrys troseddau ac mae’n angenrheidiol casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â’n rhwymedigaethau dan Ddeddf Carcharau 1952, Rheolau Carcharau 1999, Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 a Deddf Plant 2004.

## Gyda phwy y gellir rhannu’r wybodaeth

Weithiau bydd angen i ni rannu’r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu â sefydliadau eraill. Lle bo angen gwneud hyn, byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth diogelu data, yn enwedig Deddf Diogelu Data 2018

Byddwn weithiau’n rhannu gwybodaeth amdanoch chi â sefydliadau eraill, gan gynnwys:

- Y llysoedd neu’r Bwrdd Parôl os byddwch yn torri amodau eich goruchwyliaeth
- Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC)
- Dioddefwr/dioddefwyr trosedd ddifrifol, os ydynt wedi gofyn i ni roi gwybod iddynt am eich cynnydd
- Asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill

O bryd i’w gilydd, efallai y byddwn yn cynnwys sefydliadau eraill a all roi rhagor o gymorth i chi. Efallai y bydd angen i ni drosglwyddo rhywfaint o wybodaeth i’r canlynol:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Asiantaethau neu Wasanaeth Cyflogi
- Cwnselwyr
- Grwpiau cymorth cyffuriau ac alcohol
- Grwpiau cymorth iechyd meddwl
- Grŵp arbenigol arall

Byddwn fel arfer yn rhoi gwybod i chi cyn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i eraill; fodd bynnag, mewn rhai achosion (fel achosion diogelu) efallai na fydd yn rhaid i ni roi gwybod i chi, ond bydd hyn yn unol â chyfreithiau diogelu data.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir

Mae gennym bolisi manwl ynghylch am ba hyd y mae angen i ni gadw eich gwybodaeth bersonol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hyn, siaradwch â’ch Rheolwr Troseddwyr, a fydd yn trafod hyn â’r aelod priodol o staff.

## Mynediad at wybodaeth bersonol

Gallwch gael gwybod a oes gennym unrhyw ddata personol amdanoch chi drwy wneud ‘cais am fynediad at ddata gan y testun’. Os ydych chi’n dymuno gwneud cais

o’r fath, siaradwch â’ch Rheolwr Troseddwyr a fydd yn gallu trafod sut rydych chi’n gwneud hyn. Fel arall, gallwch anfon eich cais am wybodaeth bersonol i’r cyfeiriad e-bost hwn a byddwn yn prosesu eich cais fel sy’n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Data.Access1@justice.gov.uk

## Pan fyddwn yn gofyn i chi am ddata personol:

Rydym yn addo rhoi gwybod i chi pam fod angen eich data personol arnom, a dim ond y data personol sydd ei angen arnom y byddwn ni’n gofyn amdano. Ni fyddwn yn casglu gwybodaeth sy’n amherthnasol neu’n ormodol;

- Gallwch wrthod cytuno i rannu gwybodaeth ar unrhyw adeg, ond dim ond pan fydd yn gyfreithlon gwneud hynny;
- Gallwch drafod unrhyw gwestiynau neu bryderon gyda’ch Rheolwr Troseddwyr;
- Dylech ddiogelu eich gwybodaeth a sicrhau nad oes unrhyw berson heb awdurdod yn gallu cael gafael arni. Os oes gennych chi wybodaeth bersonol yn eich meddiant a’ch bod yn poeni am ei chadw’n ddiogel, siaradwch â’ch rheolwr troseddwyr;
- Dim ond gyda sefydliadau eraill y byddwn ni’n rhannu eich gwybodaeth bersonol, lle bo hynny’n berthnasol ac yn angenrheidiol;
- Byddwn yn gwneud yn siŵr nad ydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol am fwy o amser na’r hyn sy’n angenrheidiol;
- Ni fyddwn yn darparu’ch gwybodaeth bersonol i gael ei gwerthu i eraill;
- Byddwn ni’n ystyried eich cais i gywiro’ch gwybodaeth bersonol, i’w dileu neu i roi’r gorau i’w chasglu os yw’n berthnasol ac yn gyfreithlon.

## Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch y canlynol:

- Cytundebau sydd gennym â sefydliadau eraill o ran rhannu gwybodaeth;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ynghylch sut i gasglu a rheoli'ch gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym ni’n gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol;
- Sut i wneud cwyn;

I gael rhagor o wybodaeth am y pwyntiau uchod, siaradwch â’ch Rheolwr Troseddwyr.

## Cwynion

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os ydych chi’n credu bod eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei thrin yn anghywir, gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth i gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

HM Prison & Probation Service

National Probation Service

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

www.ico.org.uk

Ar ran Swyddog Diogelu Data y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ